
# ESBONIO

## Ffracio

**Holwr:** **Diolch i chi am gytuno i drafod pwnc sy'n un amserol iawn y dyddiau hyn, sef ffracio. Rydych chi'n wyddonydd sydd wedi arbenigo yn y maes, felly ga i ddechrau drwy ofyn i chi beth yn union yw ffracio?**

**Dr Williams:** Ffracio neu *fracking* yw'r ffurf fer ar y geiriau *hydraulic fracturing*, sydd yn broses o roi pwysedd ar graig siâl, (hynny yw, craig gleiog) sydd yn ddwfn o dan y ddaear, er mwyn rhyddhau'r nwy naturiol sydd yn y graig. Mae'r pwysedd yn cael ei greu drwy chwistrellu hylif, sy'n gymysgedd o ddŵr, tywod a chemegolion gwahanol, i mewn i dyllau sydd wedi cael eu drilio i'r graig. Mae'r pwysedd uchel yn creu holltau yn y graig ac mae'r nwy yn gallu dod allan. A'i roi yn syml, felly, mae ffracio'n golygu chwistrellu tywod a hylif i'r creigiau dan ddaear i'w gwahanu er mwyn rhyddhau'r nwy.



**Holwr:** **Pam mae cwmnïau wedi troi tuag at ffracio fel dull i gyrraedd at nwy naturiol?**

**Dr Williams:** Mae dod o hyd i'r holl ynni sydd ei angen arnon ni yn mynd yn anoddach. Mae'r safleoedd ynni traddodiadol ar gyfer nwy naturiol (fel Môr y Gogledd) yn dod i ben ond rydyn ni'n dibynnu ar danwydd ffosil – olew, glo a nwy – i gynhyrchu trydan, i gadw ein ceir ar y ffordd ac i wresogi ein cartrefi. Felly, mae cwmnïau ynni'n chwilio am ffyrdd newydd o gael gafael ar y ffynonellau ynni hyn. Ffracio yw un o'r ffyrdd newydd maen nhw wedi bod yn ei ddatblygu. Mae cwmnïau ynni wedi gorfod dechrau defnyddio'r dull hwn o gyrraedd dyddodion o nwy naturiol a fyddai, fel arall, y tu hwnt i'w cyrraedd.

**Holwr:** **Ym mha rannau o'r byd mae ffracio'n digwydd?**

**Dr Williams:** Hyd yn hyn, mae drilio am nwy gan ddefnyddio'r dull hwn wedi digwydd yn Unol Daleithiau America – ers blynyddoedd mewn gwirioinedd. Ond yn ddiweddar, mae un cwmni ynni wedi dechrau arbrofi gyda ffracio ger Blackpool ac mae safleoedd eraill ym Mhrydain yn cael eu harchwilio hefyd, gan gynnwys Cymru.

**Holwr:** **Beth yw'r manteision o'i gymharu â dulliau eraill?**

**Dr Williams:** Un o'r manteision yw ei bod hi'n bosib i ni wneud hyn ym Mhrydain yn hytrach na gorfod dibynnu ar fewnforio nwy o wledydd eraill.

Yn ail, gall ffracio roi hwb i argaeledd nwy drwy'r byd, ac o ganlyniad leihau cost tanwydd i bawb ohonom ni.

Yn drydydd, nwy naturiol (y nwy sydd i'w gael o ffracio) yw'r tanwydd ffosil sy'n llosgi yn y modd glanaf; mae'n cynhyrchu 45% o garbon deuocsid yn llai na glo a 30 % yn llai nag olew. Felly, mae'n opsiwn gwell ar gyfer yr amgylchedd o'i gymharu ag ambell danwydd ffosil arall.

Yn bedwerydd, mae ffracio'n broses gymhleth ac mae'r angen i dyllu cannoedd o ffynhonnau, ynghyd â'r isadeiledd mewnol fydd ei angen i gefnogi'r diwydiant ffracio, yn golygu y bydd miloedd lawer o swyddi newydd yn cael eu creu.

Pa dermau pwnc penodol sydd yn y paragraff hwn?

Pam fod cwmnïau'n troi at y broses ffracio?

Pa ansoddeiriau a ddefnyddir er mwyn dangos pa mor effeithiol yw'r broses?

Pa dri cham sydd yn y broses ffracio?

Pa nodwedd iaith sy'n cael ei defnyddio er mwyn cyflwyno'r camau?

GwE
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL TRYFAN
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government